
Diogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio

Ymgynghoriad pellach ar reolau darlledu newydd

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Mawrth 2020

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 14 Ebrill 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Y ddogfen hon yw ein hail ymgynghoriad ar ddiogelu'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio ("yr ail ymgynghoriad").

Ar 29 Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Ofcom [ymgyngoriad](#) cychwynnol ("yr ymgynghoriad cyntaf")¹ a oedd yn cynnig dwy reol newydd ar gyfer Adran Dau y Cod Darlledu ("y Cod") i fynnu bod darlledwyr yn sicrhau eu bod yn rhoi 'gofal dyladwy' i bobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni teledu a radio.

Ers hynny, mae Ofcom wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys: rhai sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni yn y gorffennol; seiciatryddion a seicolegwyr; darlledwyr; academyddion a gweithwyr proffesiynol eraill sydd ag arbenigedd yn y maes hwn. Cawsom hefyd 30 o ymatebion ysgrifenedig ffurfiol, gan gynnwys: 11 gan ddarlledwyr; 2 gan aelodau o'r cyhoedd; ac 17 gan arbenigwyr a phartion eraill sydd â diddordeb. Mae rhestr gyflawn o'r ymatebion, nad ydynt yn gyfrinachol, a gawsom i'r ymgynghoriad cyntaf wedi'i chyhoeddi ar ein [gwefan](#).

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi mynegi cefnogaeth gref ar gyfer cyflwyno mesurau diogelu ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni. Roedd ymatebwyr hefyd wedi tynnu sylw at wahanol bryderon, yn ymwneud yn benodol â diffiniad 'rhai sy'n cymryd rhan' ac amrywiaeth y rhaglenni y byddai'r cynigion newydd yn berthnasol iddynt.

Rydym wedi ystyried yr ymatebion a gawsom a oedd yn gwrthwynebu ein hamcan o sefydlu dull hyblyg, cymesur wedi'i dargedu i sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni yn cael eu diogelu yn briodol gan ddarlledwyr. Rydym yn credu bod yn rhaid i unrhyw reolau newydd ganiatáu i ddarlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni ystyried y gwahanol risgiau ac ystyriaethau sy'n codi, yn dibynnu ar amgylchiadau cyfranogiad unigolyn, a natur y rhaglen dan sylw.

Nid yw'r amcan hwn wedi newid. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yn ofalus y pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr, rydym yn cynnig dull gweithredu diwygiedig ac yn gwahodd adborth ar y diwygiadau newydd i'r Cod.

Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cydnabod bod mwy a mwy o onestrwydd a phryder ynglŷn ag iechyd meddwl a llesiant mewn cymdeithas yn ddiweddar. Mae Ofcom hefyd wedi gweld cynnydd graddol yn y cwynion ynghylch pryder am les a llesiant pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni.

¹ Rydym yn argymhell bod yr ymgynghoriad cyntaf yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r ail ymgynghoriad.

Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Erbyn hyn rydym yn ystyried bod Adran Saith y Cod Darlledu (Tegwch a Phreifatrwydd) yn lle mwy priodol i roi'r Arferion newydd i ddiogelu'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae'r adran hon eisoes yn darparu fframwaith i bobl gwyno'n uniongyrchol i Ofcom ynglŷn â'r ffordd maen nhw wedi cael eu trin ar raglenni.

Felly, rydym yn cynnig ehangu Adran Saith fel a ganlyn:

- **ehangu Arfer 7.3 sy'n nodi'r mesurau y mae'n rhaid i ddarlledwyr eu cymryd i gael 'cydsyniad ar sail gwybodaeth'.** Byddai ein hychwanegiad arfaethedig yn egluro bod cael cydsyniad ar sail gwybodaeth yn cynnwys rhoi gwybod i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni am unrhyw niwed neu effeithiau negyddol posib (i'r graddau y gellir rhagweld y rhain yn rhesymol ar y pryd), ac am unrhyw gamau y mae darlledwyr a/neu wneuthurwyr rhaglenni yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r rhain. Mae Arfer 7.3 eisoes yn nodi'n glir nad oes angen cydsyniad ar sail gwybodaeth fel arfer pan fo'r pwnc yn ddibwys neu pan fo cyfranogiad unigolyn yn fach, neu pan fo cyfiawnhad i'r darlledwr fwrw ymlaen heb ei gael; ac
- **ychwanegu arfer newydd – Arfer 7.15 – sy'n gofyn i ddarlledwyr sicrhau bod gofal dyladwy yn cael ei roi i “bobl agored i niwed” ac i'r rheiny sydd mewn peryg o niwed o ganlyniad i gymryd rhan mewn rhaglen.** Drwy wneud hynny, mae'n rhaid i ddarlledwyr ystyried: amgylchiadau'r unigolyn; natur ei gyfraniad; a natur a genre'r rhaglen.

Rydym hefyd yn credu bod angen amddiffyn cynulleidfaoedd rhag niwed neu dramgwydd posib sy'n deillio o ddiffyg (neu ddiffyg cydnabyddedig) gofal dyladwy i bobl agored i niwed, ac i'r rhai a allai gael eu rhoi mewn perygl o niwed o ganlyniad i gymryd rhan mewn rhaglen. Felly, rydym hefyd yn cynnig ehangu Adran Dau y Cod (Niwed a Thramgwydd) drwy wneud y canlynol:

- **cyflwyno gofyniad newydd (Rheol 2.17) bod darlledwyr yn rhoi digon o ddiogelwch i gynulleidfaoedd rhag niwed a/neu dramgwydd posib sy'n deillio o'r ffordd y mae “pobl agored i niwed”, a'r rheiny y mae'n ymddangos eu bod nhw mewn perygl o niwed, yn cael eu trin mewn rhaglenni.**

- 1.1 Cawsom hefyd awgrymiadau adeiladol gan ymatebwyr ynglŷn â pha Arweiniad pellach a allai fod yn angenrheidiol yn y maes hwn. Rydym yn bwriadu cyfuno'r rhain â chanllawiau manwl newydd ar gyfer Adran Dau ac Adran Saith. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r rhain ar y cyd â'n datganiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn.
- 1.2 Ar ôl asesu enghreifftiau cyfredol o arfer da yn y maes hwn, rydym yn cynnig cynnwys 'matrics risg' yn ein Canllawiau er mwyn helpu darlledwyr wrth ystyried pa lefel o ofal i'w roi i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gwahanol sefyllfaoedd golygyddol. Byddai hyn yn nodi chwe ffactor risg allweddol a ddylai gynorthwyo darlledwyr i benderfynu a ddylid cynnal dadansoddiad pellach, manylach o'r risgiau mewn perthynas â rhaglen benodol. Nid yw'r matrics yn gynhwysfawr, a gall ffactorau ychwanegol fod yn berthnasol yn dibynnu ar natur y cynhyrchiad.

- 1.3 Byddai ein matrices risg drafft, sydd wedi'i nodi yn Atodiad yr ymgynghoriad hwn, yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r mesur newydd o dan Arfer 7.3 ac Arfer newydd 7.15.

Y Camau Nesaf

- 1.4 Rydym yn gwahodd partïon sydd â diddordeb i gyflwyno eu safbwyntiau erbyn 14 Ebrill 2020. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad sy'n nodi ein penderfyniad terfynol yn nes ymlaen yn ystod yr haf.